# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Gwener, 6 Medi 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 11.00 - 11.05 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 19 GORFENNAFF 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau cyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir.**

## 3. SHOPMOBILITY CAERFYRDDIN

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad i gynorthwyo Shopmobility Caerfyrddin drwy grant pellach o £14,650 am gyfnod o 12 mis gan gychwyn ym mis Medi 2019. Esboniwyd, er bod Shopmobility wedi cael cymorth gan y Cyngor ers 2011 a'i fod yn cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian, ei fod yn dibynnu'n bennaf ar gymorth ariannol gan y Cyngor. Nodwyd bod Shopmobility yn un o'r nifer o fentrau sy'n cael eu hannog gan yr Awdurdod i gefnogi'r dref a'i bod yn gyson â'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Barcio.

**PENDERFYNWYD cynorthwyo Shopmobility Caerfyrddin drwy grant o £14,650 am 12 mis arall gan gychwyn ym mis Medi 2019 yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad.**

## 4. SHOPMOBILITY LLANELLI

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad i gynorthwyo Shopmobility Llanelli drwy grant pellach o £14,650 am flwyddyn ariannol 2019/20 gan gychwyn ar 31 Gorffennaf 2019. Esboniwyd, er bod Shopmobility wedi cael cymorth gan y Cyngor ers 2011 a'i fod yn cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian, ei fod yn dibynnu'n bennaf ar gymorth ariannol gan y Cyngor. Nodwyd bod Shopmobility yn un o'r nifer o fentrau sy'n cael eu hannog gan yr Awdurdod i gefnogi'r dref a'i bod yn gyson â'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Barcio.

**PENDERFYNWYD cynorthwyo Shopmobility Llanelli drwy grant pellach o £14,650 am flwyddyn ariannol 2019/20 gan gychwyn ar 31 Gorffennaf 2019.**

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD